CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 2

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobol Ifanc ac
Addysg Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Chwefror 2021

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr ar 3 Chwefror ynghylch effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc a dychwelyd i addysg.

Mae addysg yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Dechreuodd dysgwyr Cyfnod Sylfaen ddychwelyd i'w hysgolion a'u lleoliadau o 22 Chwefror, ynghyd â rhai dysgwyr galwedigaethol a phrentisiaid mewn sectorau â blaenoriaeth. Fel y cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 19 Chwefror os yw'r sefyllfa iechyd cyhoeddus yn parhau i wella, ein nod yw sicrhau bod gweddill y dysgwyr cynradd, yn ogystal â dysgwyr ym Mlynyddoedd 11 a 13 mewn ysgolion uwchradd a'r rhai sy'n sefyll cymwysterau cyfatebol mewn colegau, yn dychwelyd o 15 Mawrth. Bydd hyblygrwydd hefyd yn cael ei gynnig i ddysgwr eraill er enghraifft rheini ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 10 sydd o bosibl hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer cymwysterau yr haf hwn

Rydym yn cydnabod y bu darpariaeth dysgu cyfunol yn anghyson yng nghyfnod cychwynnol y pandemig. Cynhaliodd y consortia rhanbarthol adolygiad o ddarpariaeth. Fe lywiodd hyn ddatblygiad canllawiau mwy manwl. Yn fwy diweddar rydym yn cael adborth bod darpariaeth ar-lein cydamserol ac anghydamserol o ansawdd uwch yn cael ei chynnig, ond nid yw hyn yn cyfateb â'r profiad caiff plant a phobl ifanc yn yr ysgol. Rydym wedi creu Gweithgor Dysgu Cyfunol, sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol, a'u tasg yw i fynd i'r afael â materion tegwch mynediad at ddysgu mewn cyfnodau o amharu ar ddysgu.

Mae mesurau lliniaru pellach wedi'u rhoi ar waith i sicrhau y gall dysgwyr, staff, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach fod yn hyderus bod ysgolion a lleoliadau yn parhau i fod yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r canllawiau ar ddefnydd staff a dysgwyr o orchuddion wyneb, ynghyd â chyflwyno profi asymptomatig ddwywaith yr wythnos ar gyfer staff yn ogystal â dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a hŷn. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda lleoliadau addysg i gynllunio ar gyfer dychwelyd dysgwyr a staff yn ddiogel, yn ogystal â

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

meithrin ein dealltwriaeth o'r niwed i blant a phobl ifanc. Bydd y wybodaeth hon yn sail i gynllunio adfer addysg o haf 2021 ymlaen.

Mae ein strategaeth frechu yn nodi y bydd y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddal coronafeirws a datblygu salwch difrifol yn cael y brechlyn yn gyntaf. Mae hyn yn seiliedig ar gyngor y Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (neu’r JCVI). Byddwn yn parhau i gael ein harwain gan gyngor y JCVI. Mae staff mewn ysgolion a cholegau sy’n rhoi cymorth iechyd a gofal personol i grwpiau o bobl ifanc ag anghenion meddygol cymhleth wedi eu cynnwys ochr yn ochr â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yng ngrŵp blaenoriaeth 2 ac felly wedi derbyn cynnig o ddos cyntaf o’r brechlyn erbyn 12 Chwefror.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i darfu cyn lleied â phosib ar ddysgu wrth gadw Cymru'n ddiogel.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education